# Datganiad Tystiolaeth

| |
|---|
| **Cyfeiriad y Safle:**<br>Tir yn Heol Llansteffan, Caerfyrddin |
| **Cyfeirnod(au) Cynllunio / Cyfeirnod(au) Cynllun Lleol:**<br>Cyfeirnod CdLl Ail Adneuo – PrC1/h8 |
| **Dyddiad:**<br>16/05/2024 |

## Diben y Datganiad Tystiolaeth hwn

Paratowyd y Datganiad Tir Cyffredin hwn gan ddau barti i fynd i'r afael â materion y gellir eu cyflawni mewn perthynas â'r datblygiad yn Heol Llansteffan, Caerfyrddin, a ddangosir mewn coch yn Atodiad 1.

Mae'n mynd i'r afael â'r dangosyddion cyflawni canlynol:

1. Statws cynllunio'r safle.
2. Unrhyw gynnydd a wneir tuag at gyflwyno cais (ceisiadau) y mae angen ei ganiatáu cyn y gall y datblygiad ddechrau'n gyfreithlon.
3. Unrhyw gynnydd yng ngwaith asesu'r safle sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno cais a/neu cyn y gall datblygiad ddechrau'n gyfreithlon.
4. Unrhyw wybodaeth berthnasol am hyfywedd ariannol sy'n effeithio ar ddechrau'r datblygiad.
5. Unrhyw wybodaeth berthnasol am berchnogaeth safle a chyfyngiadau mynediad sy'n effeithio ar yr asesiad o'r safle neu ddechrau'r datblygiad.
6. Unrhyw wybodaeth berthnasol am ddarparu'r seilwaith y bydd ei hangen i gefnogi / galluogi'r datblygiad.
7. Cyfraddau cyflawni ac adeiladu disgwyliedig.

## 1. Statws cynllunio'r safle.

1.1 Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n berchen ar y tir ac mae wedi'i leoli ger Canolfan Hamdden Caerfyrddin ar Heol Llansteffan, Tre Ioan, Caerfyrddin. Ar hyn o bryd mae'r safle'n cynnwys cae gwyrdd a gynhelir yn dda a ddefnyddiwyd yn hanesyddol at ddibenion hamdden.

1.2 Mae'r safle datblygu arfaethedig oddeutu 1.5 hectar o faint ac mae wedi'i leoli yn union i'r de o gyrtiau tennis y ganolfan hamdden a'r maes parcio ceir. Mae ffin gweddill y safle yn cynnwys llystyfiant gan gynnwys gwrychoedd a choed. Dangosir y cynllun yn Atodiad 1.

## 2. Unrhyw gynnydd a wneir tuag at gyflwyno cais (ceisiadau) y mae angen ei ganiatáu cyn y gall y datblygiad ddechrau'n gyfreithlon.

2.1 Mae gwaith ymchwilio tir wedi'i gwblhau ar y safle yn ystod Gorffennaf 2023 a gadarnhaodd fod y tir yn addas ar gyfer datblygiad preswyl.

2.2 Mae dyluniad manwl yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a'r bwriad yw cyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ym mis Awst / Medi 2024 ar gyfer tua 34 o anheddau, gan gynnwys 1, 2, 3 a 4 ystafell wely i helpu i ddiwallu anghenion tai yn yr ardal.

2.3. Dyrennir y safle ar gyfer 50 o anheddau yn yr Ail CDLl Diwygiedig Adneuo. Bydd hyn yn cael ei ystyried wrth archwilio'r CDLl gan fod cynllun manwl yn cael ei baratoi yn ystod Haf 2024.

## 3. Unrhyw gynnydd yng ngwaith asesu'r safle sy'n ofynnol ar gyfer cyflwyno cais a/neu cyn y gall datblygiad ddechrau'n gyfreithlon.

3.1 Bydd archwiliadau o'r safle a gwaith tirfesur yn cael eu cynnal er mwyn llunio'r adroddiadau sy'n ofynnol fel rhan o'r cais cynllunio amlinellol. Bydd hyn yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiadau Bioamrywiaeth
- Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd
- Asesiad Risg Cloddio am Lo
- Asesiad Sŵn
- Datganiad Trafnidiaeth
- Arolwg Coedyddiaeth
- Datganiad Dylunio a Mynediad

- Strategaeth Ddraenio

3.2 Yn dilyn paratoi'r adroddiadau hyn, cynhelir y broses Ymgynghori Cyn Ymgeisio cyn i'r cais cynllunio amlinellol gael ei gyflwyno.

## 4. Unrhyw wybodaeth berthnasol am hyfywedd ariannol sy'n effeithio ar ddechrau'r datblygiad.

4.1 Mae adroddiad hyfywedd ariannol wedi'i gynnal gan Burrows-Hutchinson Ltd, cyfeiriwch at “Adroddiad Hyfywedd Ariannol Atodiad / Diweddariad”.

## 5. Unrhyw wybodaeth berthnasol am berchnogaeth safle a chyfyngiadau mynediad sy'n effeithio ar yr asesiad o’r safle neu ddechrau'r datblygiad.

### Perchenogaeth

5.1 Cyngor Sir Caerfyrddin sy'n berchen ar rydd-ddaliad y tir.

### Mynediad

5.2 Nid oes unrhyw gyfyngiadau mynediad yn effeithio ar y gwaith o gyflawni'r safle. Y prif bwyntiau mynediad yw trwy Heol Llansteffan.

### Hygyrchedd

5.3 Mae'r safle yn agos at gyfleusterau lleol yng Nghaerfyrddin. O'r safle, ceir mynediad da i lwybrau trafnidiaeth gyhoeddus gyda mynediad i'r A40, yr A48 a'r M4, gan ddarparu mynediad hawdd i Sir Benfro i'r Gorllewin ac Abertawe i'r Dwyrain.

## 6. Unrhyw wybodaeth berthnasol am ddarparu’r seilwaith y bydd ei hangen i gefnogi / galluogi'r datblygiad.

6.1 Darperir rhagor o wybodaeth ategol pan fydd arolygon wedi'u cynnal.

## 7. Bwriadau cyflawni'r tirfeddiannwr, pryd y disgwylir dechrau adeiladu a’r cyfraddau adeiladu disgwyliedig:

7.1 Mae'r tabl isod yn dangos Taflwybr Tai y Cynllun Adneuo a amlinellir yn Atodiad 7 y Cynllun Adneuo:

| **Dyddiad Cwblhau Amcangyfrifedig** | **2025-26** | **2026-27** |
|---|---|---|
| **Nifer yr Anheddau** | 25 | 25 |

7.2 Yn seiliedig ar y cynnydd a wnaed hyd yma, gellir cadarnhau y caiff y safle ei ddatblygu o fewn yr amserlenni a nodir uchod. Gallwch weld yr amserlen ragamcanol isod:

- Cyflwyno caniatâd cynllunio amlinellol
- Sicrhau caniatâd cynllunio amlinellol – Medi 2024 (Cais cynllunio llawn)
- Dechrau'r gwaith datblygu – Gorffennaf 2025

7.3 Bydd y prif gynllun dangosol sydd i'w gyflwyno fel rhan o'r broses cyflwyno cais cynllunio yn darparu gwybodaeth fwy cywir mewn perthynas â'r nifer o unedau y gellir eu darparu ar y safle. Ceir mwy o wybodaeth am hyn yn dilyn yr adroddiadau ecoleg ac arolygon coedyddiaeth.

7.4 Gellir darparu diweddariadau pellach wrth i'r arolygon safle, ymgyngoriadau a'r adroddiadau fynd rhagddynt.

## 8. Asesiad Cyflawni

8.1 Yn seiliedig ar y wybodaeth uchod, ystyrir bod tystiolaeth glir yn nodi y bydd modd cyflawni gwaith y safle o fewn yr amserlenni a nodir yn Nhaflwybr Tai'r Cynllun Adneuo.

8.2 Mae dyraniad y safle yn y Cynllun Datblygu Lleol at ddibenion preswyl wedi cael ei ystyried yn llawn trwy'r fethodoleg asesu safleoedd. Fel rhan o'r broses asesu hon, paratowyd ffurflen safle fanwl. Ystyrir bod polisïau a chynigion y Cynllun Datblygu Lleol yn gadarn ac yn gyflawnadwy, eu bod yn deillio o sylfaen dystiolaeth gadarn a’u bod wedi’u llunio gan ystyried yr Arfarniad o Gynaliadwyedd mewn ffordd sy’n gyson ag ef. Mae'r dyraniad, a nodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol, yn gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer rhan o anghenion tai yr anheddiad hwn.

**Atodiad 1** Cynllun y Safle

